
Archwilio Cymru
Audit Wales

# 'Gyda'n gilydd fe allwn ni'

## Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ionawr 2023



Paratowyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno i’r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Senedd ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Cyd-destun 4

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 9

## Prif adroddiad

1 Diffinio cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau 10

2 Dull cyfredol awdurdodau lleol o greu cymunedau mwy cydnerth a phobl fwy hunanddibynnol 18

3 Edrych tua’r dyfodol a dysgu o ardaloedd eraill 31

## Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 46

2 Offeryn gwerthuso cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau 48

# Cyd-destun

1 Yr astudiaeth hon yw'r adroddiad olaf o dri dan ein rhaglen o waith thematig sy'n bwrw golwg ar sut y mae llywodraeth leol yn lleddfu tlodi ac yn mynd i'r afael ag ef. Trwy ein gwaith rydym wedi ceisio:

- **Sicrhau** pobl ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ar fynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi a darparu tystiolaeth i ddynodi ble y mae angen newid.
- **Egluro** maint yr her o ran tlodi sy'n wynebu pobl yng Nghymru a nodi sut y mae pob haen o lywodraeth yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn amlygu arfer da ond hefyd yn adnabod meysydd lle mae angen gwelliant.
- **Ysbrydoli** newid o ran sut y gellir darparu arian a gwasanaethau yn y dyfodol gan adnabod ffyrdd newydd o wneud pethau i helpu i fynd i'r afael â thlodi.

2 Darparodd ein hadroddiad cyntaf linell sylfaen a oedd yn dangos mai tlodi yw'r brif her sy'n wynebu pob haen o lywodraeth, a bod gan Gymru'r lefelau tlodi mwyaf a dyfnaf ym Mhrydain Fawr. Gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg, fe wnaeth ein hail adroddiad fwrw golwg ar y modd y mae awdurdodau lleol yn gweithio i dyfu ac ehangu mentrau cymdeithasol i helpu llywodraeth leol i ddarparu mwy o wasanaethau a lleihau'r galw.

3 Mae'r adolygiad olaf hwn yn canolbwyntio ar ddeall sut y mae awdurdodau lleol yn creu'r amodau y mae eu hangen i drawsnewid ffyrdd o weithio a grymuso cymunedau i ffynnu mor annibynnol â phosibl. Rydym yn bwrw golwg yn benodol ar y flaenoriaeth a roddir i gydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau yng nghynlluniau awdurdodau lleol, a sut y mae awdurdodau lleol yn arfogi pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau awdurdodau lleol sy'n aml dan ormod o bwysau.

## Mae awdurdodau lleol yn wynebu her hynod anodd

4 Yn y 15 mlynedd ddiwethaf, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi wynebu pwysau sylweddol, gan ymdrin ag un argyfwng ar ôl y llall, sydd wedi newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Fe wnaeth cyni cyllidol brofi gallu llywodraeth leol i newid ac adweithio. Fe wnaeth awdurdodau lleol addasu'n dda i ymateb i'r her hon, gan ddyfeisio a gweithredu ystod o fesurau effeithlonrwydd a wnaeth leihau cost gwasanaethau, ond gan hefyd ddod o hyd i ffyrdd arloesol o weithio. Yn yr un modd, roedd awdurdodau lleol yn hyblyg wrth ymateb i COVID-19, a hwythau wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a oedd yn gwarchod pobl gan oresgyn yr heriau niferus a gyflwynwyd gan y pandemig.

5 Yn awr mae awdurdodau lleol yn wynebu heriau mwy sylweddol o ganlyniad i’r argyfwng costau byw cyfredol, ac mae’n amlwg eu bod eto’n cael eu herio i gefnogi pobl lle mae’r galw am wasanaethau’n debygol o gynyddu. Ond, oherwydd bod capasiti o fewn awdurdodau lleol wedi’i erydu a bod cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach wedi’u disbyddu, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ddod o hyd i ffyrdd eraill o gynnal gwasanaethau a pharhau i gynorthwyo’r gymuned ehangach ac yn arbennig y rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae hyn hefyd yn cael ei osod yn erbyn sefyllfa bresennol lla nad yw gwariant cyhoeddus yn cadw i fyny â chwyddiant. Er y bydd setliad refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn 2023-24 yn cynyddu 7.9% ar sail gyfatebol o’i gymharu â’r flwyddyn gyfredol[1], mae hyn yn is na chyfradd chwyddiant yr amcangyfrifwyd yn 9.3% ar ddiwedd mis Tachwedd[2].

6 Yn erbyn y sefyllfa hon sy’n gryn her, mae awdurdodau lleol yn dangos diddordeb cynyddol mewn hybu a thyfu cydnerthedd cymunedau; arfogi pobl i wneud mwy drostynt hwy eu hunain a bod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth. Nid yw cydnerthedd yn gysyniad newydd ac mae wedi bod yn ganolog i’r modd y mae awdurdodau lleol yn draddodiadol wedi ymateb i argyfyngau lleol megis llifogydd, trychinebau naturiol ac, yn wir, y pandemig. Yn y cyd-destun hwn, caiff cymunedau cydnerth eu diffinio gan eu gallu i ymdrin ag anffawd sydyn ond maent hefyd yn gallu adlamu’n ôl yn gyflym o’u cyflwr cyn yr argyfwng.

7 Ond ar adeg o ostyngiadau mewn cyllidebau ac ansicrwydd mewn cyllid cyhoeddus, mae’r syniad o arfogi pobl i wneud mwy drostynt hwy eu hunain a hynny’n fwy parhaus yn apelio’n fwyfwy. Mae’n ymateb i’r pwysau o ran ble i flaenoriaethu gweithgarwch awdurdodau lleol a sicrhau bod rhwyd ddiogelwch ddigonol yn ei lle ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig. O ganlyniad, mae cydnerthedd cymunedau a hunangydnerthedd wedi dechrau ymddangos fel blaenoriaeth mewn mwy o gynlluniau corfforaethol a dogfennau strategaeth gan awdurdodau lleol, nid dim ond fel ymateb i drychineb naturiol ond fel modd i arfogi pobl i allu addasu a rheoli’r problemau y maent yn eu hwynebu mewn modd uniongyrchol.

8 Fodd bynnag, nid yw meddwl am gydnerthedd heb ei risgiau a’i heriau. Er y gall hybu cydnerthedd gael ei ystyried yn ymateb pragmatig gan awdurdodau lleol sy’n wynebu penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i ddefnyddio’u hadnoddau gostyngol, mae’n bwysig cydnabod terfynau’r hyn y gellid ei gyflawni; gallai cydnerthedd fod yn strategaeth i helpu cymunedau i ymdopi ag adfyd, ond ni all cydnerthedd wrthdroi anghydraddoldebau strwythurol a darparu datrysiadau i faterion sydd wedi bodoli o un genhedlaeth i’r llall ar ei ben ei hun.

1 Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2023-24

2 www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/timeseries/l55o/mm23

# Canfyddiadau allweddol

9 Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod awdurdodau lleol yn wynebu dyfodol ariannol heriol ac ansicr ond eu bod yn ei chael yn anodd grymuso pobl a chymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau.

10 Yn **Rhan 1,** rydym yn ystyried pam fod cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau yn bwysig i awdurdodau lleol. Canfuom fod llawer o'r naratif cyfredol lle mae cydnerthedd cymunedau yn y cwestiwn wedi'i fframio gan yr angen i ymateb i argyfyngau a gofynion o ran argyfyngau sifil. Gall y ffocws cul hwn achosi i awdurdodau lleol golli cyfleoedd i gael effaith ehangach ac, mewn rhai achosion, gall hyd yn oed gael effaith anfwriadol o ran hybu dibyniaeth.

11 Yn bwysig, mae deddfwriaeth ddiweddar gan Senedd Cymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mapio cyfeiriad newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, canfuom nad yw hyn wedi trosi'n newid sylfaenol gyda phobl yn cael eu hannog i wneud mwy drostynt hwy eu hunain a bod yn llai dibynnol ar wasanaethau awdurdodau lleol. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cydnerthedd cymunedau, yn rhy aml mae'r gwaith yn cael ei ddiffinio'n wael ac mae'r camau gweithredu sy'n tanategu cynlluniau'n rhy gul o ran eu ffocws.

12 Yn **Rhan 2**, rydym yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio ar hyn o bryd i feithrin mwy o hunanddibyniaeth a mwy o gydnerthedd mewn cymunedau. Rydym yn crynhoi gweithgarwch cyfredol gan amlygu sut y mae awdurdodau lleol yn fframio'u perthynas newidiol â chymunedau. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn ystyried effeithiolrwydd dulliau, gan nodi cryfderau ac arfer da ond hefyd y rhwystrau i wneud newid cadarnhaol.

13 Mae'r twf mewn gwirfoddoli, trosglwyddo asedau cymunedol, hybiau cymunedol, gwaith sy'n dod i'r amlwg at rymuso cymunedau a gwaith llyw-wyr cymunedol yn dangos ymrwymiad awdurdodau lleol i drawsnewid sut y maent yn gweithredu. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau cymdeithasol, ariannol a demograffig sy'n wynebu Cymru, mae angen tyfu a chyflymu gweithgarwch. Rydym yn cydnabod nad yw'r newid mewn pwyslais gydag awdurdodau lleol yn gwneud llai ac yn ei gwneud yn ofynnol i eraill wneud mwy yn hawdd i'w gyflawni.

14 Mae rhwystrau sylweddol i’w goresgyn, o fewn awdurdodau lleol ond hefyd o fewn cymunedau. Mae capasiti, adnoddau a sgiliau yn brin, mae pobl yn wynebu dewisiadau anos ac yn ei chael yn anodd ymdopi â’r argyfwng costau byw. Mae gan gymunedau ac awdurdodau lleol eu hunain alluoedd gwahanol ac maent yn dechrau o leoedd gwahanol gyda’u heriau unigryw eu hunain i’w goresgyn.

15 Yn gadarnhaol, o ganlyniad i COVID-19, ceir peth wmbredd o ewyllys da ac ymrwymiad mewn cymunedau y gall awdurdodau lleol adeiladau arnynt a’u defnyddio. Fodd bynnag, mae barn partneriaid a rhanddeiliaid y siaradom ni gyda hwy’n awgrymu bod rhai o wasanaethau awdurdodau lleol yn dychwelyd at eu ffyrdd o weithio cyn y pandemig ac y gallai’r cyfle i newid i fod yn ‘ddylanwadwr’ ac yn ‘alluogwr’ yn hytrach nag yn ‘ddarparwr uniongyrchol’ fod yn cael ei wastraffu o bosibl.

16 Yn **Rhan 3**, rydym yn edrych tua’r dyfodol, gan nodi dulliau a gwersi o fannau eraill. Rydym yn amlygu arfer ac enghreifftiau cadarnhaol sy’n dangos sut y mae eraill yn ceisio mynd i’r afael â her galluogi pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau awdurdodau lleol a sut y maent yn cefnogi ac yn galluogi’r newid hwn. Rydym yn fframio hyn o amgylch y canlynol:

- creu gweledigaeth glir o ran sut y bydd pethau’n gweithio yn y dyfodol;
- cynnal deialog ddwyffordd a chyfleu sut y bydd newid yn ‘edrych’ ac yn ‘teimlo’;
- adfywhau rôl aelodau awdurdodau lleol fel hyrwyddwyr cymunedol;
- ailbennu ffocws gwaith staff awdurdodau lleol;
- cydnabod y bydd ail-lunio perthnasoedd cymunedol yn galw am ddatrysiadau gwahanol mewn lleoedd gwahanol; a
- sicrhau bod cyfoeth yn aros yn lleol ac yn gweithio i’r gymuned gyfan.

Dangosodd y pandemig y gall cymunedau fod â rôl fwy gweithredol a dod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus ond er mwyn cynnal hyn mae angen i awdurdodau lleol newid y ffordd y maent yn gweithio. Rwy'n cydnabod pa mor anodd yw hyn yn yr hinsawdd bresennol ond rwyf hefyd yn credu bod newid yn angenrheidiol. Mae ein hadroddiad yn cyfleu'r achos dros newid ac yn darparu argymhellion i helpu awdurdodau i wneud y trawsnewidiad.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Argymhellion

17 Caiff ein hargymhellion eu nodi isod. Rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, ac y bydd ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio'n cael yr adroddiad hwn ac yn monitro ei ymateb i'n hargymhellion mewn ffordd amserol.

## Argymhellion

A1 I gryfhau cydnerthedd cymunedau a chynorthwyo pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r offeryn gwerthuso yn **Atodiad 2** i:

- hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac ymarfer cyfredol;
- adnabod ble y mae angen gwelliant; a
- drafftio a chyflawni cynllun gweithredu sy'n cynnwys fframiau amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n gywir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a adnabuwyd wrth gwblhau'r offeryn gwerthuso.

A2 I helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r bylchau a gaiff eu canfod ganddynt yn dilyn eu hunanwerthusiad, rydym yn argymell eu bod:

- yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Cynllun Gweithredu wedi'u gwblhau sy'n codi o'r ymarfer hunanwerthuso;
- adrodd ar berfformiad, monitro perfformiad a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu perthnasol; a
- diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

# Diffinio cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

01

## Y newid mewn polisi o ‘wneud’ i ‘alluogi’ a ‘dylanwadu’

1.1 Nid yw meithrin cydnerthedd yn wyddoniaeth fanwl. Nid yw ychwaith yn wasanaeth traddodiadol nac yn weithgarwch wedi’i ddiffinio’n dwt yn ei rinwedd ei hun. Mae dealltwriaeth am rôl esblygol llywodraeth a’r berthynas newidiol rhwng dinasyddion a’r wladwriaeth yn darparu’r sylfeini; o’r sefyllfa esblygol hon, gall awdurdodau lleol ddatblygu eu dull o fynd ar drywydd cydnerthedd cymunedau, gan wreiddio ffyrdd cyson a pharhaus o weithio sydd yn y pen draw yn grymuso pobl a chymunedau.

1.2 Nid yw’r newid sylfaenol hwn – o fod yn ‘ddarparwyr’ i fod yn ‘alluogwyr’ – yn un anarwyddocaol na rhwydd i’w gyflawni. Fe wnaeth cyni ariannol ysgogi awdurdodau lleol i fyfyrio ynghylch eu rôl ac mewn nifer o ffyrdd fe’i gwnaeth yn angenrheidiol newid i fabwysiadu dull mwy galluogol. Ar yr un pryd, fodd bynnag, cafodd y cyfyngiadau cyllidebol a fynnodd bod y newid hwn yn digwydd yn y lle cyntaf effaith sylweddol o ran lleihau’r capasiti ac arbenigedd yr oedd eu hangen i ymgodymu â’r trawsnewid anodd hwn. Serch hynny, gyda dyfodol anodd ac ansicr ar gyfer cyllid cyhoeddus[3], galw cynyddol am wasanaethau statudol trwy boblogaeth sy’n heneiddio[4], a’r ffaith bod Cymru eisoes yn wynebu rhai o’r lefelau tlodi gwaethaf yn y DU[5], ychydig o ddewis sydd gan awdurdodau lleol ond canolbwyntio’u hymdrechion ar arfogi cymunedau i ddod yn fwy cydnerth a hunanddibynnol.

1.3 At ei gilydd, dylai’r termau cydnerthedd a hunanddibyniaeth gwmpasu parodrwydd cymunedau ar gyfer sefyllfaoedd anffafriol; cymorth i hybu annibyniaeth unigolion, a phopeth arall yn y canol. O’r rhai y gwnaethom ni eu hadolygu, canfuom mai diffiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru[6] o gydnerthedd sydd fwyaf cyflawn; ‘y gallu i alw ar gryfderau ac asedau i ymdopi neu ffynnu mewn adfyd– boed yn ddigwyddiad bywyd difrifol neu acíwt neu straen cronig bywyd bob dydd’. Mae’r adroddiad ar gydnerthedd cymunedau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 yn nodi nifer o ffactorau allweddol sy’n cyfrannu at gydnerthedd cymunedau, gan amlygu ei bwysigrwydd fel modd i fynd i’r afael â materion cymdeithasol cymhleth fel tlodi. Caiff y rhain eu nodi yn **Arddangosyn 1**.


3 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ‘Autumn Statement is a missed opportunity to help our communities’, Tachwedd 2022

4 Llywodraeth Cymru, Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd Cymru (Cyfrifiad 2021), Mehefin 2022

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Amser am newid – Tlodi yng Nghymru, Tachwedd 2022

6 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cydnerthedd: Deall y rhyng-ddibyniaeth rhwng unigolion a chymunedau, 2019

**Arddangosyn 1: 'Blociau adeiladu cydnerthedd' Iechyd Cyhoeddus Cymru**



**Cyfalaf dynol**

y rhinweddau personol cynhenid a chaffaeledig gan gynnwys sgiliau ac addysg, capasiti a gwybodaeth leol



**Cyfalaf cymdeithasol (lefel y gymuned)**

cwmpas rhwydweithiau a chysylltiadau cymdeithasol o fewn cymuned, effeithiolrwydd sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol (cefnogaeth, cyfranogiad), ac adnoddau sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sydd ar gael i gefnogi cymuned



**Cyfalaf diriaethol/adeiledig**

isadeiledd diriaethol gan gynnwys cartrefi a ffyrdd, mynediad i amwynderau



**Cyfalaf naturiol/amgylcheddol**

mynediad i ofod gwyrdd a glas, argaeledd adnoddau naturiol a'r defnydd ohonynt




**Cyfalaf ariannol neu economaidd**

incwm, cyfoeth, mynediad i adnoddau, mentrau dinesig a chymdeithasol

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cydnerthedd: Deall y rhyng-ddibyniaeth rhwng unigolion a chymunedau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019

1.4 Nid yw diffinio cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth gymunedol yn cael ei helpu gan y ffaith bod gwahanol ddehongliadau ac ystyron yng nghyd-destunau deddfwriaeth allweddol ac amryw swyddogaethau awdurdodau lleol. Er enghraifft, fel un o egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae awdurdodau lleol wedi bod yn canolbwyntio ers tro byd ar gynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i atal eu hanghenion rhag gwaethygu. Mae hyn yn newid y pwyslais ar gyfer awdurdodau lleol fel eu bod yn cyflawni mwy o rôl 'alluogi', er bod hynny'n digwydd yng nghyd-destun cefnogi'r rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth. Ni fu hyn heb ei heriau ac mae llawer i'w wneud o hyd i wreiddio egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn llawn ac i sicrhau bod diwylliannau sefydliadol yn ategu'r broses o'i rhoi ar waith[7].

7 Archwilio Cymru, Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion, Archwilio Cymru, 2019

1.5 Ym mhen arall y sbectrwm, dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn gyfrifol am gydlynu ymatebion lleol i fygythiadau ac argyfyngau. Mae cydnerthedd cymunedau yn derm adnabyddus iawn yn y cyd-destun hwn ond mae'n ymwneud yn benodol â sicrhau parodrwydd cymunedol ar gyfer digwyddiadau fel pandemigau, llifogydd neu ddigwyddiadau terfysgol ac ymateb cymunedol digonol i'r digwyddiadau hynny. Mae'r ffocws a phwyslais cynhenid ar gynllunio at argyfwng yn amlwg yn ymwneud â digwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch y DU[8]. Y tu hwnt i gwmpas cynllunio at argyfwng, nid oes a wnelo cydnerthedd yn yr ystyr hwn rhyw lawer â hybu hunanddibyniaeth mewn bywyd beunyddiol ac arfogi pobl i fod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth.

1.6 Nodir dehongliad pellach yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – yn benodol, y ffocws ar newid hinsawdd ac ansawdd aer yn y nod lesiant cenedlaethol 'Cymru gydnerth'. Er ei fod yn amlwg yn berthnasol mewn ystyr ehangach, nid oes a wnelo hyn rhyw lawer â chreu'r amodau cymdeithasol a dynol sy'n helpu cymunedau i ffynnu heb alw ar awdurdodau lleol. Felly mae datblygu cymunedau cydnerth a dinasyddion hunanddibynnol yn golygu bod angen i awdurdodau lleol 'ildio' rheolaeth a chynnwys a grymuso pobl. Er bod 'cynnwys' yn un o'r pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn aml nid yw cyrff cyhoeddus yn creu cyfleoedd i ddinasyddion gael eu cynnwys o'r cyfnod cynnar pan wneir gwaith dylunio ac yn ystod pob cam nes gwneir gwaith gwerthuso a rhaid iddynt wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth[9].

8 Swyddfa'r Cabinet, The role of Local Resilience Forums, Swyddfa'r Cabinet, 2013

9 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol, Mai 2020

## Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i greu cymunedau mwy cydnerth a hunanddibynnol, ond ychydig iawn sydd wedi diffinio’n glir beth mae hyn yn ei olygu neu’n ei gynnwys

1.7 O ystyried yr ysgogiadau polisi a deddfwriaethol cyfredol, nid yw’n syndod canfod bod dehongliadau awdurdodau lleol o gydnerthedd a hunanddibyniaeth wedi’u gwreiddio naill ai mewn cynllunio at argyfwng neu mewn gofal cymdeithasol, a/neu eu bod yn gysylltiedig â’u hymdrechion corfforaethol i leihau allyriadau carbon a hybu bioamrywiaeth. Er bod y dulliau hyn yn amlwg yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy at lesiant a diogelwch pobl, gall eu ffocws culach olygu bod awdurdodau lleol mewn perygl o golli cyfleoedd i gael effaith ehangach ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed mewn perygl o annog pobl i fod yn ddibynnol.

1.8 Ar adeg ein hadolygiad, canfuom nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddiffiniad clir o gydnerthedd a chymunedau hunanddibynnol, er bod gan 19 ohonynt amcanion llesiant sydd wedi’u bwriadu’n benodol i hybu cydnerthedd cymunedau. Mewn arolwg o swyddogion arweiniol awdurdodau lleol, roedd llai na’u hanner yn gallu diffinio beth mae cymuned gydnerth yn ei olygu a dim ond tri oedd yn gallu diffinio nodweddion unigolyn hunanddibynnol.

1.9 Mae’r holl awdurdodau lleol yn cyfeirio at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys Cymru gydnerth, yn eu cynlluniau, ond ychydig o ddatblygiad sydd i drosi’r rhain yn amcanion neu gamau gweithredu lleol. Mae’r diffyg diffiniad ar gyfer y termau ‘cydnerthedd cymunedau’ a ‘hunanddibyniaeth’ yn golygu eu bod yn annelwig a’i bod yn aml yn wir nad ydynt yn llawer mwy na datganiadau sy’n cwmpasu popeth. Rhwng gwahanol awdurdodau lleol, a rhwng gwahanol wasanaethau o fewn awdurdodau lleol, gall olygu pethau amrywiol.

1.10 Yn ystod cyfweliadau, fe ofynnom ni i swyddogion awdurdodau lleol ddiffinio cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (**Arddangosyn 2**). Roedd rhai’n credu nad yw’n bosibl diffinio’r rhain, neu nad oedd diffiniadau’n flaenoriaeth, neu fod eu hystyr yn amrywio’n sylweddol rhwng gwahanol wasanaethau. Er bod hyn yn cydnabod natur gyfannol cydnerthedd i’r unigolyn a’r angen i’w ystyried ym mhob maes gwasanaeth, mae hefyd yn dangos pwysigrwydd diffiniad clir i wahanol rannau o’r awdurdod lleol weithio tuag ato.

**Arddangosyn 2: enghraifft o ddiffiniadau swyddogion awdurdodau lleol o gydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau**

- 'Mae cymuned gydnerth yn un sy'n adweithio i her.'
- 'Ni ellir diffinio hynny.'
- 'Chwilio am gyfleoedd i wneud pobl yn eu cymunedau deimlo'u bod yn ymgysylltu'n fwy.'
- 'Yr awdurdod lleol yn gweithio gyda chymunedau ac unigolion i ganfod y pethau sydd o bwys mewn bywyd heb i'r awdurdod lleol fod y man galw cyntaf.'
- 'Gall y diffiniad fod yn wahanol ble bynnag yr ewch. Mae ar ardaloedd gwahanol angen cymorth gwahanol.'
- 'Gweithio gyda thrigolion a'r gymuned i rannu cyfrifoldeb, helpu cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain a rhoi mwy o reolaeth iddynt dros yr hyn y gallant ei wneud i gefnogi pobl leol yn eu cymunedau.'
- 'Proses a chanlyniad ymgysylltu â'r trydydd sector a buddsoddi yn eu gwybodaeth am eu cymunedau.'

Ffynhonnell: Cyfweliadau Archwilio Cymru gyda swyddogion awdurdodau lleol.

> **"Mae cymuned gydnerth yn un sy'n adweithio i her"**

1.11 Roedd swyddogion eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i ymgysylltu â chymunedau a’r trydydd sector i ddatblygu cydnerthedd – fel canlyniad ac fel proses. Y canlyniad terfynol fyddai bod dinasyddion yn gweithio fel cymuned i fynd i’r afael â materion yn hytrach na mynd yn syth at yr awdurdod lleol. Roedd cydnabyddiaeth hefyd i’r angen am gydnerthedd i rymuso cymunedau i ymdopi ag argyfyngau, ond hefyd achub ar gyfleoedd. Felly mae bod â diffiniad clir yn ei gwneud yn bosibl llunio camau gweithredu sy’n cael effaith fawr a’r rheiny’n ymgorffori’r nodweddion allweddol hyn. Mae llawer o swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy hefyd o’r farn bod eu rôl yn cynnwys helpu i rwydweithio grwpiau cymunedol a’u cynnwys mewn gwaith i greu seilwaith a systemau i gefnogi eu datblygiad. Mae eraill o’r farn mai rôl yr awdurdod lleol yw bod yn gyd-gynhyrchydd ochr yn ochr â phartneriaid gan barhau i ddarparu gwasanaethau yn hytrach nag anelu yn y pen draw at drosglwyddo’r cyfrifoldeb am eu darparu i bartneriaid.

1.12 Er gwaethaf hyn, canfuom rai dulliau addawol. Mae Cynllun Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr[10] yn cynnwys amcan llesiant i helpu ‘pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a chydnerth’. Mae hwn wedi’i fframio o amgylch lleihau’r angen neu atal yr angen rhag gwaethygu nes bod angen ymateb gan yr awdurdod lleol a galluogi datrysiadau cymunedol. Mae’r fersiwn wedi’i diweddaru o Gynllun Corfforaethol Casnewydd ar gyfer 2022-27 yn cynnwys amcan llesiant i wneud Casnewydd yn ‘ddinas gefnogol lle mae cymunedau a gofal yn ganolog i’r yn a wnawn’[11]. Mae’r cynllun yn disgrifio uchelgais bod cymunedau’n cefnogi ei gilydd mewn dull mwy cydweithredol.

1.13 Mae trawsnewid llwyddiannus yn golygu bob angen i arweinwyr awdurdodau lleol, yn swyddogion ac aelodau etholedig, ddisgrifio’n glir beth yw manteision y ffyrdd newydd o weithio a deilliannau llwyddiannus. Mae hyn yn ei dro’n galluogi swyddogion ym mhob maes gwasanaeth i gymryd camau gweithredu i ddwyn y budd mwyaf yn lleol, megis comisiynu buddsoddiad mewn mentrau cymdeithasol i gadw cyllid o fewn yr economi leol. O ganlyniad, roedd mudiadau yn y trydydd sector a busnesau cymdeithasol sy’n cefnogi grwpiau sy’n hybu cydnerthedd cymunedau yn teimlo bod arweinyddiaeth gan awdurdodau lleol o’r pwys mwyaf yn allanol i greu’r ddeialog y mae ei hangen o fewn cymunedau ond hefyd o fewn awdurdodau lleol i ysgogi newid mewn diwylliant.

10 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cynllun Corfforaethol 2018-23
11 Cyngor Dinas Casnewydd, Cynllun Corfforaethol 2022-27

1.14 Hefyd, mae llawer o awdurdoda lleol yn dal i fframio’u gweithgareddau o amgylch parhau i fod yn gorff sy’n darparu gwasanaethau ac mae ganddynt waith pellach i’w wneud i helpu i greu newid mewn meddylfryd a diwylliant. Mae’n amlwg y dylanwadir ar hunanddibyniaeth gan y pethau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud. Ond caiff ei llunio hefyd gan y pethau nad ydynt yn eu gwneud – mae’n dilyn, trwy gynorthwyo cymunedau i wneud mwy drostynt hwy eu hunain, y bydd awdurdodau lleol yn newid neu’n cyfyngu ar yr hyn y maent yn ei wneud yn y pen draw.

1.15 Trwy ein cyfweliadau, canfuom fod awdurdodau lleol yn gyfforddus yn trafod darparu gwasanaethau’n uniongyrchol – er enghraifft, gweithgareddau i gefnogi pobl agored i niwed – ond ei bod yn llai clir ynghylch eu rôl i symud tuag at gynorthwyo cymunedau i wneud mwy drostynt hwy eu hunain. Mae taro’r cydbwysedd cywir rhwng helpu’r rhai y mae arnynt angen cymorth a galluogi eraill i wneud mwy yn her allweddol sy’n wynebu awdurdodau lleol wrth greu lefelau uwch o hunanddibyniaeth.

# Dull cyfredol awdurdodau lleol o greu cymunedau mwy cydnerth a phobl fwy hunanddibynnol


02

2.1 Yn **Rhan 2** o’r adroddiad, rydym yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio ar hyn o bryd i feithrin mwy o hunanddibyniaeth a chydnerthedd cryfach mewn cymunedau. Rydym yn crynhoi gweithgarwch cyfredol gan amlygu sut y mae awdurdodau lleol yn fframio’u perthynas newidiol â chymunedau. Rydym yn ystyried effeithiolrwydd dulliau, gan nodi cryfderau ac arfer da ond hefyd y rhwystrau i gyflawni newid cadarnhaol.

## Mae gan awdurdodau lleol hanes cymysg o helpu i feithrin cydnerthedd cymunedau a chryfhau hunanddibyniaeth

2.2 O ran ble mae awdurdodau lleol yn draddodiadol wedi bod yn anelu eu hymdrechion i helpu i feithrin unigolion a chymunedau cryfach a mwy hunanddibynnol, mae eu gwaith dros y blynyddoedd diwethaf wedi perthyn yn fras i un neu fwy o’r meysydd canlynol – **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: sut y mae awdurdodau lleol yn helpu i greu cymunedau cydnerth a hunanddibynnol**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Cynorthwyo ac annog pobl i wirfoddoli

2.3 Mae awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'r cymorth ychwanegol a roddir gan wirfoddolwyr i ystod o wasanaethau, ac mae gwirfoddolwyr yn dod â sgiliau newydd, syniadau newydd a safbwynt ffres. Ceir nifer o enghreifftiau o raglenni gwirfoddoli mewn llywodraeth leol, ac mae gwirfoddoli wedi esblygu yn unol â chyd-destun polisi a gweithredol newidiol gwasanaethau awdurdodau lleol. Wrth i awdurdodau lleol ganolbwyntio'n fwyfwy ar ymgysylltu a chyfranogi cymunedol, maent hefyd wedi dechrau defnyddio dull mwy strategol o gynnwys gwirfoddolwyr yn y broses o ddarparu gwasanaethau.

2.4 Trwy ein cyfweliadau gydag awdurdodau lleol, canfuom fod mentrau gwirfoddoli'n aml yn gweithio orau pan fo gan yr awdurdod lleol berthynas weithio glòs â'u Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS)[12]. Canfuom hefyd rai enghreifftiau cadarnhaol sy'n dangos sut y mae awdurdodau leol yn adeiladu ar y perthnasoedd lleol hyn i hybu gwirfoddoli. Er enghraifft, Cynllun Gwirfoddoli gan Gyflogeion Caerffili a 'chynlluniau troeon da' Ynys Môn mewn cymunedau diffiniedig ar yr ynys.

2.5 Serch hynny, ceir rhai heriau sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli. Nid oes gan bob cymuned ddemograffeg wirfoddoli gref ac mae gan gymunedau eu hunain alluoedd a chapasiti gwahanol. Er enghraifft, canfuom waith da sy'n digwydd yn Sir Benfro, gyda chreu rhwydwaith gwirfoddolwyr effeithiol sy'n cyflawni ystod o weithgareddau gan gynnwys cynlluniau cymydog da, rhwydwaith 50+ a gwasanaeth danfon meddyginiaeth o fferyllfeydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gan Sir Benfro gymuned leol gref ag ystod dda o wirfoddolwyr sy'n meddu ar y sgiliau a'r galluoedd i ffynnu'n annibynnol y gall yr awdurdod lleol a'i bartneriaid dynnu arni. Nid yw hyn yr un fath ym mhob ardal yng Nghymru, ac mae'n amlwg yn fwy o her annog gwirfoddolwyr yn yr ardaloedd mwy amddifadus.

2.6 Ceir gofid cynyddol hefyd y gallai'r sector gwirfoddoli chwythu ei blwc a pherygl, er y gall gwirfoddolwyr fod â rôl bwysig, eu bod yn aml yn 'papuro dros graciau' system sydd dan straen. Mae lle i wirfoddoli, ond mae angen iddo gael ei reoli a'i feithrin yn ofalus ac mae'n rhaid wrth newid mewn diwylliant a pholisi o fewn awdurdodau lleol iddo fod yn llwyddiannus[13].

12 Mae gan bob sir yng Nghymru gorff seilwaith ar gyfer y sector gwirfoddol, a elwir yn generig yn Gyngor Gwirfoddol Sirol neu CGS. Prif swyddogaeth CGS yw rhoi cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ar wirfoddoli, ffynonellau ariannu ac ystod eang o faterion eraill.

13 Nesta, Making the shift to people powered services: a cross–Government agenda, gov.uk

## Grymuso cymunedau

2.7 Yn yr un modd, mae nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar grynhoi capasiti cymunedol a grymuso cymunedau i adnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain a chynhyrchu datrysiadau dichonadwy. Enghraifft dda o hyn yw gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gyda Medrwn Môn, asiantaeth annibynnol sy'n rhoi cymorth a chyngor i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Dan y fenter 'rhwydwaith o gynghreiriau', mae Medrwn Môn yn helpu i greu system o gynghreiriau lleol ledled yr ynys a gaiff eu grymuso i adnabod y problemau yn eu hardal, yr asedau sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r datrysiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â hwy[14]. Nid oedd gwerthusiad o lwyddiant y fenter hon ar gael ar adeg ein harchwiliad.

2.8 Mae Caerffili wedi sefydlu Cronfa Grymuso'r Gymuned i ategu ei Strategaeth Drawsnewid. Cafodd y cylch cyntaf o gyllid ei rannu rhwng 18 o brosiectau cymunedol â chyfanswm gwerth o fwy na £40,000. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu meini prawf ar gyfer ceisiadau i helpu i ganolbwyntio ymdrechion ar wella cydnerthedd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er bod y meini prawf yn blaenoriaethu mentrau i roi cymorth i sefydlu grwpiau cymunedol newydd, prosiectau i gefnogi mwy o gydlyniant cymunedol, a phrosiectau sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigedd, ni ddarparwyd unrhyw ddiweddariad ar lwyddiant y gwaith hwn ar adeg ein harchwiliad.

2.9 Er gwaethaf yr uchod, mae mwy y gall awdurdodau lleol ei wneud. Mae ein dadansoddiad ni o ymatebion i'n harolwg o swyddogion yn amlygu nad yw awdurdodau lleol yn newid eu hymdrechion i rymuso cymunedau i wneud mwy drostynt hwy eu hunain. O'n harolwg o swyddogion awdurdodau lleol, y gweithgareddau lle mae cymunedau'n cael eu cynnwys yn fwy uniongyrchol wrth ddarparu gwasanaethau heb ymwneud gan yr awdurdod lleol yw pethau fel gweithgareddau casglu sbwriel, banciau bwyd ac ailgylchu ac ailbwrpasu dodrefn, nwyddau a dillad. Er eu bod yn amlwg yn bwysig, nid yw'r rhain yn weithgareddau sy'n helpu i annog pobl i fod yn fwy hunanddibynnol ac yn llai dibynnol. Hefyd, yn aml nid yw prosesau caffael a grantiau'n ddigon syml neu ystwyth i naill ai annog grwpiau lleol i ymgeisio am gyllid neu i drosglwyddo arian i fudiadau cymunedol mewn modd amserol[15].

14 Medrwn Môn, Digwyddiad 'Beth yw Cynghrair?', Gorffennaf 2022

15 South Wales Argus, Caerphilly Council still has budget for grants to charities, Tachwedd 2022

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol

2.10 Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd pan fo awdurdod lleol yn trosglwyddo rheolaeth a/neu berchnogaeth ar ased eiddo i gyngor tref a chymuned, corff yn y trydydd sector neu grŵp cymunedol. Bydd hyn weithiau’n cynnwys darparu unrhyw wasanaethau cysylltiedig. Mae trosglwyddo asedau’n ei gwneud yn bosibl cadw cyfleusterau a gwasanaethau lleol allweddol a allai gael eu cau fel arall. Ar y cyfan, canfuom nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio’r arfer o Drosglwyddo Asedau Cymunedol i helpu i ysgogi a meithrin cydnerthedd cymunedau, a’u bod yn canolbwyntio’n bennaf ar gyfleoedd i ostwng gwariant a rhoi’r gorau i gynnal asedau na ellir darparu cymhorthdal ar eu cyfer mwyach.

2.11 Mae ein harolwg o awdurdodau lleol tref a chymuned yn amlygu profiad cymysg o ran eu profiad o awdurdodau lleol yn trosglwyddo asedau. Cwyn gyffredin gan gynghorau tref a chymuned yw bod prosesau trosglwyddo asedau cymunedol yn anghyfartal ac annheg. Maent yn aml yn cymryd yn rhy hir, gyda rhai’n dweud bod y proses wedi cymryd nifer o flynyddoedd, gan arwain at golli cyfleoedd cyllido posibl, costau cynyddol, a newidiadau sydyn mewn cytundebau contract. Roedd awdurdodau lleol yn cael eu categoreiddio fel cyrff a oedd yn rhy amharod i gymryd risg ac yn wael am gyfathrebu.

2.12 Fe wnaeth rhai ymatebwyr i’n harolwg amlygu hefyd nad oedd dewis ganddynt ond cymryd yr ased ymlaen oherwydd y bygythiad y byddai’r gwasanaeth yn cael ei ddirwyn i ben fel arall. Dywedodd sawl un y gwnaethom gyfweld â hwy nad oedd awdurdodau lleol yn trosglwyddo asedau ond rhwymedigaeth gydag amodau’n cael eu gosod ar drosglwyddiadau a oedd yn golygu na ellid cael llwyddiant. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella’n cynnwys darparu cofrestr hygyrch o drosglwyddiadau sydd ar gael, mwy o hyblygrwydd mewn cytundebau trosglwyddo, gan gydnabod pwysigrwydd traws-gymorthdaliadau a gwarant o gymorth parhaus gan awdurdodau lleol.

## Hybu mynediad at wasanaethau cymunedol ac ymyriadau cynnar

2.13 Mae awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i ailosod eu presenoldeb mewn cymunedau ac maent wedi canolbwyntio’n bennaf ar ddau ddull:

- **Hybiau Cymunedol** – Mae nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Caerdydd wedi datblygu ‘hybiau cymunedol’, sy’n darparu lle i bobl gael mynediad at wasanaethau allweddol. Mae’r Hybiau hefyd yn gweithredu fel lle i bobl gwrdd a rhyngweithio ac maent yn helpu i leihau arwahanrwydd ac unigrwydd. Yn Ngwynedd, mae’r hyb cymunedol ym Maesgeirchen, Bangor wedi bod yn allweddol o ran cryfhau presenoldeb yr awdurdod lleol ar yr ystâd, gan greu man mwy hygyrch ac addas lle gall gwasanaethau a’r gymuned ddod ynghyd i weithio mewn partneriaeth.

  Yn yr un modd, gwaith cadarnhaol Hyb Cymunedol Sir Benfro. Dechreuodd hwn fel ymateb i COVID-19 ar gyfer y sir ac roedd wedi’i leoli yn Neuadd y Sir yn Hwlffordd. Yn ystod y pandemig, cymerodd yr Hyb dros 10,000 o alwadau gan roi cymorth a chynhorthwy fel bod dinasyddion yn gallu cael mynediad at y bwyd, y presgripsiynau a’r gwasanaethau cymunedol yr oedd eu hangen arnynt. Yn dilyn ei lwyddiant ac ymgysylltu manwl â chymunedau a phartneriaid mewn Diwrnod Gweithgarwch a Llesiant Cymunedol ym mis Mehefin 2022, yn ddiweddar mae’r Hyb wedi cael ei ail-lansio â rôl ehangach[16].

- **Llyw-wyr neu Gysylltwyr Cymunedol** – Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd rôl y llywiwr cymunedol i gydlynu mynediad at wasanaethau cymunedol a chefnogi datblygiad darpariaeth amgen nad yw’n un gan yr awdurdod lleol. Mae teitlau’r swyddi’n amrywio ledled Cymru. Cyfeirir at rai fel cydlynwyr ardal leol, at eraill fel llyw-wyr cymunedol. Beth bynnag fo’r teitl, mae awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth y rolau hyn o ran helpu i gefnogi cydnerthedd mewn cymunedau. Maent yn aml wedi’u gwreiddio mewn gwaith ym maes gofal cymdeithasol, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol, adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed cyn bod eu hanghenion yn gwaethygu a hybu mynediad at wasanaethau amgen[17].

  Er enghraifft, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy ei raglen ‘Cydlynu Cymunedau Lleol a Chysylltu Cymunedau’ sy’n cefnogi pobl na fyddai eu hanghenion fel arfer yn bodloni’r meini prawf cymhwystra ar gyfer gofal a chymorth. Mae’r awdurdod lleol, gan weithio gyda Phrifysgol Abertawe, wedi meintioli a gwerthuso effaith y rhaglen hon, gan amlygu bod pob £1 a gaiff ei gwario’n dwyn adenillion o £4. Hefyd, ac yn bwysicach, dim ond 4% o’r bobl a atgyfeiriwyd gan y Cydlynwyr Lleol at wasanaethau’r trydydd sector oedd angen mynediad at help statudol gan yr awdurdod lleol wedi hynny.

---

16 Mae partneriaeth yr Hyb yn cynnwys Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Sir Penfro, Iechyd Cyhoeddus Cymru, PLANED, Volunteering Matters a Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl.

17 Mae’r rolau wedi’u gwreiddio yn egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn canolbwyntio ar atal, gan helpu i sicrhau bod llesiant pobl yn cael ei gynnal i osgoi’r angen iddynt gael gofal a chymorth statudol.

# Mae rhwystrau sylweddol o ran diwylliant, adnoddau a chapasiti i’w goresgyn i helpu i greu cymunedau mwy cydnerth a hunanddibynnol

2.14 Er ei bod yn amlwg bod gan awdurdodau lleol hanes cryf mewn rhai meysydd a all helpu i greu unigolion mwy hunanddibynnol a chymunedau cydnerth, mae ein harolwg o uwch swyddogion awdurdodau lleol yn amlygu bod heriau sylweddol yn bodoli o hyd – **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: rhwystrau i greu unigolion a chymunedau mwy hunanddibynnol a chydnerth a nodwyd gan swyddogion awdurdodau lleol**

Diffyg adnoddau, sgiliau cyfyngedig a chapasiti gwan i allu llywio’r agenda hon.

Anallu i ailgyfeirio adnoddau o ddarparu gwasanaethau i gynorthwyo cymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol.

Diffyg ymddiriedaeth rhwng y cyngor a thrigolion a diffyg gallu ac awch canfyddedig mewn cymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol.

Y diwylliant darparu gwasanaethau sydd ohoni yn y cyngor, sef bod angen bod yn ‘ddarparwyr uniongyrchol’ yn hytrach nag yn ‘ddylanwadwyr’ ac yn ‘alluogwyr’.

Cyfyngiadau o ran cydweithio gyda phartneriaid ar lawr gwlad i feithrin ymwneud a dylanwad cryfach gan gymunedau.

Diffyg gweledigaeth strategol a dealltwriaeth gyfyngedig am anghenion a galluoedd cymunedau.

Heriau parhaus o ran helpu i gysylltu ac ailgysylltu cymunedau oherwydd heriau tlodi, natur wledig, trafnidiaeth ac allgau digidol.


Ffynhonnell: Arolwg o Swyddogion Awdurdodau Lleol, Dadansoddiad Archwilio Cymru

2.15 Neges gref o’n cyfweliadau a’n gwaith arolwg yw nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau i ysgogi cydnerthedd cymunedau mewn modd effeithiol. Nid yw hyn yn syndod. Yn yr hinsawdd cyllidol sydd ohoni, gyda dyfodol ansicr, nid yw symud adnoddau o wasanaethau sy’n aml dan bwysau’n beth hawdd. Fodd bynnag, heb rywfaint o fuddsoddiad ar lawr gwlad sydd wedi’i fwriadu i feithrin capasiti a hybu cydnerthedd, mae’n amlwg na fydd rhai cymunedau’n gallu ymateb ac efallai, lle maent yn digwydd, na fydd ymatebion yn gynaliadwy.

2.16 Mae cynghorau tref a chymuned yn rhanddeiliaid allweddol o ran creu cymunedau cydnerth a hunanddibynnol. Maent yn aml mewn sefyllfa dda mewn rhwydweithiau lleol ac yn meddu ar asedau cymunedol sylweddol a all gael eu defnyddio gan grwpiau. Mae cydweithio gyda chynghorau tref a chymuned yn agor y cyfle i gynnwys cymunedau’n fwy gweithredol, a ddylai gynyddu ymrwymiad cyhoeddus ac, yn ei dro, helpu i ysgogi cydnerthedd cymunedau.

2.17 Roedd tôn negyddol gan amlaf i’r sylwadau mewn ymateb i’r arolwg o gynghorau tref a chymuned. Er y teimlid bod awdurdodau lleol yn effeithiol am gynllunio a chreu gweledigaeth, ystyrir gan amlaf eu bod yn aneffeithiol am roi’r rhain ar waith. Cafodd cyfathrebu gwael, yn ogystal ag oedi a achosir gan fiwrocratiaeth, eu henwi fel y rhesymau pam fod mentrau’n methu. Dywedodd un ymatebydd, oherwydd oedi, ‘fod y brwdfrydedd yn tueddu i fynd yn wannach’. Mae ymatebion i’r arolwg mewn perthynas â chwestiynau penodol yn nodi llawer o gyfle ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, er bod hanner yr ymatebwyr o blith cynghorau tref a chymuned yn teimlo bod eu hawdurdod lleol wedi nodi’r hyn yr oedd ei angen i helpu i feithrin cymunedau cydnerth, dim ond 41% oedd yn teimlo’u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio’r dull ac ychydig dros draean oedd yn glir ynghylch beth allent a beth ddylent fod yn ei wneud – **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: barn cynghorau tref a chymuned ynglŷn â pha mor dda y maent yn cydweithio gyda’u hawdurdod lleol**




Ffynhonnell: Arolwg o Gynghorau Tref a Chymuned, Dadansoddiad Archwilio Cymru

2.18 Trywydd cryf arall o ran yr adborth gan gynghorau tref a chymuned yw’r diffyg cyllid ac adnoddau. Nododd ymatebwyr fod cyllidebau awdurdodau lleol wedi crebachu, gan olygu bod yr awdurdodau lleol ‘heb ddigon o staff profiadol i gyflawni swyddogaethau statudol’ heb sôn am ymgymryd â gweithgarwch datblygu cymunedol. Hefyd, mae gwasanaethau a allai’n aml fod ar y rheng flaen o ran meithrin cydnerthedd cymunedau yn aml yn absennol ar lawr gwlad. Er enghraifft, mae’r diffyg ffocws ar rôl datblygu economaidd i gadw cyllid o fewn cymunedau lleol ac atal cyfoeth rhag cael ei dynnu allan yn cael ei ystyried yn gyfle sy’n cael ei golli.

2.19 Mae eraill yn amlygu diwylliant ‘gorchymyn a rheoli’ sy’n dal i fod yn bresennol mewn rhai awdurdodau lleol, gan gryfhau’r anghydbwysedd grym rhwng yr awdurdod lleol a’i gymunedau, gan fframio’r berthynas fel ‘nhw’ a ‘ni’. Mae hyn yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i ymgysylltu’n llawn â’r gymuned, ac i’w chynnwys a’i deall yn llawn, ac yn ei dro mae’n creu anawsterau i gymuned ymddiried yn llwyr yn yr awdurdod lleol. Nododd un ymatebydd fod eu hawdurdod lleol yn dal i adnabod ei flaenoriaethau ei hun ac mai dim ond ar ôl gwneud hynny y mae’n mynd at gymunedau lleol er mwyn iddynt ddilysu eu gwaith.

2.20 Nid yw hyn yn cael ei helpu gan drefniadau monitro a gwerthuso perfformiad awdurdodau lleol. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn myfyrio ynghylch eu perfformiad blaenorol tuag at yr holl amcanion llesiant ac yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o drefniadau monitro perfformiad rheolaidd. Fodd bynnag, canfuom fod gwendidau yn y modd y mae awdurdodau lleol wedi disgrifio’u gweledigaeth mewn perthynas â chydnerthedd cymunedau yn golygu bod monitro perfformiad yn aml yn gyfyngedig i ganolbwyntio ar brosiectau neu fentrau penodol ac nad yw’n ystyried beth y mae’r rhain yn ei olygu ar y cyd o ran cydnerthedd cymunedau.

2.21 Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol yn cael eu casglu sy’n pennu’n ffurfiol pa mor gydnerth yw pobl a chymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, gall nifer o setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus gael eu defnyddio fel mesurau dirprwy i adnabod yr heriau allweddol sy’n wynebu llywodraeth leol o ran meithrin cymunedau mwy cydnerth a hunanddibynnol:

- dinasyddiaeth weithgar, a gaiff ei mesur trwy gyfranogiad pobl mewn prosesau democrataidd a phrosesau penderfynu gan dynnu ar ddata gan Y Comisiwn Etholiadol sy’n dangos y gyfran o bleidleiswyr cymwys a gyfranogodd yn etholiadau awdurdodau lleol. Ceredigion oedd â’r ganran uchaf a bleidleisiodd yn yr etholiad diweddaraf yn 2022, gyda 48.6% o’r pleidleiswyr cymwys yn pleidleisio. Mae hyn yn cymharu â chanran a bleidleisiodd o 31.3% yn Nhorfaen yn ystod yr un etholiad. A ledled Cymru, roedd y ganran a bleidleisiodd ar gyfartaledd bron 4% yn is yn 2022 o’i gymharu ag etholiad 2017. Mae’r data’n dangos bod y ganran a bleidleisiodd yn ardaloedd yr awdurdodau lleol ar draws rhai o Gymoedd De Cymru’n gyson yn is[18].

18 Safbwyntiau ac Ymchwil, Y Comisiwn Etholiadol

- mae Arolwg Cenedlaethol Cymru’n mesur unigrwydd emosiynol a chymdeithasol dros amser, ac mae’r rhain yn faterion allweddol i ymdrin â hwy wrth hybu cyfalaf cymdeithasol. Mae’r data’n dangos bod bron i draean o boblogaeth Cymru wedi dweud eu bod yn teimlo’n unig yn gymdeithasol yn 2019-20. Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dadansoddi mesur tebyg yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae’n dangos, erbyn 2020-21, bod bron i 40% o boblogaeth Cymru wedi dweud eu bod yn teimlo’n unig. Mae ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymoedd De Cymru, gan gynnwys Blaenau Gwent a Thorfaen, ymhlith y rhai â’r cyfrannau uchaf o bobl a ddwedodd eu bod yn teimlo’n unig[19].
- mae Data Cymru’n cyhoeddi data sy’n dangos ymdeimlad pobl o berthyn i ardal a lefelau cydlyniant cymunedol. Mae’n mesur nifer y bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. Mae’n dangos cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf – o gyfartaledd o 51% a oedd yn cytuno ledled Cymru yn 2016-17 i 70% a oedd yn cytuno yn 2020-21[20].

2.22 Trwy ein hadolygiad ni chanfuom yr un awdurdod lleol yng Nghymru sy’n defnyddio’r mesurau dirprwy hyn i helpu i werthuso na monitro cydnerthedd.

19 Arolwg Cenedlaethol Cymru
20 Llesiant Cymru, Data Cymru

## Dangosodd y pandemig y gall cymunedau fod â rôl fwy gweithgar a dod yn llai dibynnol, ond er mwyn cynnal hyn mae angen i awdurdodau lleol newid sut y maent yn gweithio

2.23 Fe ymatebodd awdurdodau lleol yng Nghymru i COVID-19 ag arweinyddiaeth effeithiol ac aberthau rhyfeddol gan weithwyr rheng flaen, aelodau etholedig ac uwch arweinwyr. Fe wnaeth y pandemig bobl yn fwy ymwybodol o rôl awdurdodau lleol yn eu bywydau. Gan hynny mae cyfle i ailosod y berthynas rhwng awdurdodau lleol a’u dinasyddion ac i ddefnyddio’r profiad o gydweithio gyda chymunedau fel partneriaid gwirioneddol i ailosod perthnasoedd a disgwyliadau.

2.24 Fe wnaeth pobl y cyfwelom ni â hwy nodi’n benodol bod y pandemig wedi ysgogi ymchwydd mewn ‘gweithredu cymunedol’ gydag unigolion, grwpiau a mudiadau’n cydweithio i greu newid. Fe wnaeth nifer o bobl y siaradom ni gyda hwy amlygu hefyd bod yr argyfwng wedi annog awdurdodau lleol i fod yn fwy agored, gyda swyddogion ac aelodau etholedig yn dangos parodrwydd newydd i gynnwys pobl a chydweithio gyda hwy i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau, yn aml yn ddyddiol.

2.25 Gofynnodd ein harolwg o gynghorau tref a chymuned i ymatebwyr sut yr oedd y pandemig wedi effeithio ar gydnerthedd a hunanddibyniaeth yn eu hardaloedd lleol. Yn gadarnhaol, dywedodd nifer o ymatebwyr fod COVID-19 wedi cynorthwyo cymunedau i ‘ddod ynghyd’ a chefnogi pobl agored i niwed yn y gymuned trwy ddarparu prydau bwyd a meddyginiaeth ar gyfer pobl agored i niwed a oedd yn gwarchod, danfon nwyddau i gartrefi a chyflawni gweithgareddau cymunedol megis casglu sbwriel. Nododd rhai hefyd fod gorfod gweithredu gyda llai o gymorth gan eu hawdurdod lleol hefyd wedi helpu i gynyddu cydnerthedd, gan ddangos y gallai unigolion a chymunedau wneud mwy drostynt hwy eu hunain.

2.26 Canfuom rai enghreifftiau da hefyd o awdurdodau lleol yn dysgu gwersi o’r pandemig i helpu i wella cydnerthedd cymunedau. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gwynedd yn dysgu o’r newid i atal sy’n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddylanwadu ar ei waith a’i ddull gweithredu mewn rhannau eraill o’r sefydliad. Trwy gyflwyno hyfforddiant ar egwyddorion ‘Yr Hyn sy’n Bwysig’[21] yn fwy eang i staff mewn gwasanaethau eraill, mae’r awdurdod lleol yn ceisio ailddiffinio’i waith gan symud i ffwrdd oddi wrth ymateb i angen i adnabod cryfderau a datrysiadau personol a lleol fel ffordd o gefnogi cydnerthedd. Yn yr un modd, mae Cyngor Sir y Fflint yn tynnu ar yr ymateb cadarnhaol gan gymunedau yn ystod y pandemig i helpu i fynd i’r afael â phrinderau staff ym maes gofal cymdeithasol. Gan adeiladu ar lwyddiant pobl a wirfoddolodd yn ystod COVID-19, mae’r awdurdod lleol yn blaenoriaethu gwaith i ymgysylltu â’i drigolion i annog pobl i gychwyn gyrfa ym maes gofal.

2.27 Fodd bynnag, fe wnaeth eraill y siaradom ni gyda hwy nodi bod cryn dipyn o’r gwaith da i ailfframio perthnasoedd a newid sut y mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau ac yn eu defnyddio a grëwyd gan y pandemig heb cael ei wreiddio a’i gynnal. Er bod gan awdurdodau lleol brofiad o’r pandemig i dynnu arno o ran sut i wneud pethau’n wahanol, nid yw llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i ail-lunio’u perthynas â phobl a chymunedau. Trwy ein cyfweliadau gyda swyddogion, canfuom fod nifer cynyddol yn cydnabod bod angen newid mewn diwylliant ond nad ydynt wedi disgrifio a nodi eto beth fyddant yn ei wneud yn wahanol i leihau dibyniaeth. O ganlyniad, ceir pryder cynyddol bod awdurdodau lleol yn dychwelyd at eu ffyrdd traddodiadol o weithio ac nad ydynt yn adeiladu ar y brwdfrydedd a’r ymrwymiad a grëwyd gan y pandemig.

2.28 Caiff hyn ei adleisio yn y dystiolaeth o’n hadolygiad ‘Llamu Ymlaen’ a gyflawnwyd yn 2022. Canolbwyntiodd ein gwaith archwilio ar sut y mae awdurdodau lleol yn dysgu gwersi o’r pandemig i drawsnewid eu gweithlu a’u defnydd o asedau. Canfuom fod awdurdodau lleol yn gynyddol yn ystyried bod hyblygrwydd ac ystwythder yn eu hasedau dynol a ffisegol fel elfennau sy’n hanfodol yn y modelau darparu gwasanaethau y bydd angen iddynt eu cymhwyso yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chanfuom ryw lawer o ffocws ar yr angen i greu cymunedau mwy cydnerth a dinasyddion mwy hunanddibynnol, na phroses i flaenoriaethu’r camau y mae eu hangen i leihau’r galw am wasanaethau.

21 Sgwrs sy’n canolbwyntio ar ddeilliannau ac sy’n seiliedig ar gryfderau rhwng ymarferydd gofal cymdeithasol ac unigolyn i bennu pa un a oes ganddo/ganddi anghenion cymwys o ran gofal a chymorth yw asesiad ‘Yr Hyn sy’n Bwysig’.

# Edrych tua'r dyfodol a dysgu o ardaloedd eraill

# 03

3.1 Yn y rhan olaf hon o’r adroddiad rydym yn edrych tua’r dyfodol, gan nodi dulliau a chyfleoedd o rannau eraill o Brydain Fawr. Rydym yn cydnabod y bydd gan rannau gwahanol o Gymru heriau gwahanol i’w goresgyn, ac nad oedd unrhyw ddau awdurdod lleol yn dechrau o’r un lle yn union. Fodd bynnag, o’n hymchwil mae cyfleoedd i ddysgu o ardaloedd eraill a all helpu awdurdodau lleol i wneud y newid hwn.

## Gyda dyfodol ansicr a chymhlethdod cynyddol o ran sut y darperir gwasanaethau, rhaid i awdurdodau lleol newid sut y maent yn gweithio a defnyddio adnoddau’n wahanol i rymuso cymunedau ac unigolion i feithrin cydnerthedd a dod yn fwy hunanddibynnol

3.2 Mae maint yr heriau cyfredol sy’n wynebu cymunedau ledled Cymru’n bygwth gorlethu gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae tlodi sydd wedi hen galedu, anghydraddoldebau hirsefydlog, cyllid cyhoeddus ansicr a galw cynyddol gan bobl ag ystod o broblemau cymhleth yn creu amgylchedd gweithredu anodd[22].

3.3 Mae’n amlwg bod awdurdodau lleol yn mynd i wynebu problemau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf gyda chapasiti’n dal i fod dan bwysau, gwasanaethau’n cael eu targedu’n fwy ac yn wynebu goralw o bosibl. Mae’n debygol y bydd llai o wasanaethau’n cael eu darparu’n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, ar gyfer llai o bobl, ac y bydd gwasanaethau awdurdodau lleol fel yr ydym ni’n eu hadnabod yn edrych yn wahanol iawn erbyn diwedd y degawd nesaf.

3.4 O ganlyniad, bydd yn allweddol bod awdurdodau lleol yn rhoi ffocws ar lywio pobl i ffwrdd oddi wrth eu gwasanaethau ac ar ddisodli hyn â dull cydweithredol, gan gydweithio gyda chymunedau a gwneud pethau’n wahanol. I gyflawni hyn, mae angen i awdurdodau lleol feddwl a gweithredu’n wahanol, gan feithrin capasiti a chyfalaf cymdeithasol ac annog cymunedau a dinasyddion i wneud mwy drostynt hwy eu hunain.

3.5 Yn gadarnhaol, nid ydym yn dechrau o ddim. Fel a nodwyd yn **Rhan 2**, mae awdurdodau lleol eisoes yn gwneud cryn dipyn ac yn ystod COVID-19 fe welsom ymateb cymunedol ar raddfa a chydag amrywiaeth a oedd y tu hwnt i amgyffred yn flaenorol gan amlygu bod gan lawer o gymunedau gydnerthedd tu hwnt o ddwfn. Mae llawer o waith eisoes yn digwydd ledled Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig hefyd y gallwn ddysgu ohono. Mae **Arddangosyn 6** yn nodi’r rhain:

22 Er enghraifft, gweler casgliadau Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Cymru 2021 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, sy’n dwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth i gynorthwyo dinasyddion a phenderfynwyr Cymru i ddeall y tueddiadau a’r ysgogiadau mawr sy’n debygol o lunio dyfodol Cymru. Mae’r adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn nodi cyfres o heriau sylweddol sy’n wynebu awdurdodau lleol yn y degawd nesaf a’r tu hwnt.

**Arddangosyn 6: dulliau allweddol o ran sut y mae awdurdodau lleol yn ceisio cryfhau cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau i leihau’r galw ar wasanaethau**

Creu gweledigaeth eglur ar gyfer sut y bydd pethau’n gweithio yn y dyfodol.

Cynnal deialog ddwyffordd a chyfleu sut y bydd newid yn ‘edrych’ ac yn ‘teimlo’.

Adfywhau rôl aelodau’r cyngor fel hyrwyddwyr cymunedol.

Ailbennu ffocws gwaith staff y cyngor.

Cydnabod y bydd ail-lunio perthnasoedd cymunedol yn galw am ddatrysiadau gwahanol mewn lleoedd gwahanol.

Sicrhau bod cyfoeth yn aros yn lleol ac yn gweithio i’r gymuned gyfan.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Creu gweledigaeth eglur ar gyfer sut y bydd pethau’n gweithio yn y dyfodol

3.6 Wrth gychwyn mewn cyfeiriad newydd, mae’n bwysig i awdurdodau lleol ddisgrifio beth yw eu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae pennu gweledigaeth yn helpu i ddisgrifio diben yr awdurdod lleol, yr hyn y mae’n ymdrechu tuag ato, a’r hyn y mae arno eisiau ei gyflawni. Dylai’r weledigaeth ddeillio o werthoedd craidd yr awdurdod lleol a dylai weithredu fel egwyddor arweiniol i ategu prosesau penderfynu hirdymor.

3.7 Yn ei Strategaeth Cydnerthedd 2016 fe wnaeth Cyngor Dinas Bryste nodi cyfeiriad teithio hirdymor, gan adlewyrchu’r angen am newid ar bob lefel: gan ddechrau gyda dinasyddion unigol, gan gynnwys cymunedau a chymdogaethau lleol, y ddinas yn ei chyfanrwydd a’i lle yn y byd mawr. Gyda’r uchelgais ar y cyfan i greu dinas gydnerth ffyniannus mae’r Ddinas a’i phartneriaid yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Teg** – Mae gan bob person sy’n byw ym Mryste yr asedau a’r cyfleoedd i fwynhau ansawdd bywyd da.
- **Cyfannedd** – Mae canol y ddinas a’r cymdogaethau’n lleoedd gwych i bobl o bob oedran fyw, gweithio, dysgu a chwarae.
- **Cynaliadwy** – Mae’r ddinas a’r rhanbarth yn ffynnu o fewn terfynau amgylcheddol trwy fabwysiadu ymddygiadau a thechnoleg newydd.
- **Ystwyth** – Mae dinasyddion ac arweinwyr Bryste’n gwneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar flaenoriaethau cyffredin a gwybodaeth mewn amser real.
- **Cysylltiedig** – Mae rhwydwaith cryf o gymunedau a sefydliadau lleol yn hybu ymddiriedaeth, cydweithrediad a chamau gweithredu ar y cyd ledled y ddinas.

3.8 Yn yr un modd, mae Cyngor Oldham wedi cychwyn ar raglen eofn sy’n canolbwyntio ar ddod yn fwrdeistref gydweithredol gyda phawb yn gwneud ei ran a phawb yn cael budd. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi uchelgais i ‘weithio gyda chymunedau i leihau angen trwy ddefnyddio dull ataliol sy’n canolbwyntio ar gymunedau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus’. Y man cychwyn ar gyfer yr awdurdod lleol oedd cydnabod bod gan bawb yn Oldham broblemau ac uchelgeisiau cyffredin ac mai dim ond trwy gydweithio ac edrych ar yr hyn y gall yr awdurdod lleol, partneriaid, grwpiau cymunedol a dinasyddion unigol ei wneud y gallwch gyflawni newid.

3.9 Ar gyfer Oldham, mae angen dull system gyfan, gan ymgysylltu â chymunedau i ddylunio a chyflawni pethau mewn partneriaeth a phwysleisio hunangymorth a chyfrifoldeb trwy gynorthwyo cymunedau i fod yn fwy cydnerth. Yr ethos ysgogol yw cydweithio gyda chymunedau i leihau angen trwy ganolbwyntio ar bedwar maes gwaith allweddol:

- cefnogi arweinwyr lleol a grymuso pobl am ei bod hi’n aml yn wir nad yw’r awdurdod lleol mewn sefyllfa dda i ymdrin â materion ar lefel gymunedol;
- annog staff i chwilio’n gyson am ffyrdd o wella gwasanaethau neu ddatrys problemau, eu cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb a gweithredu’n feiddgar;
- rhoi Oldham a’i phobl yn gyntaf a gwneud beth sydd orau i gymunedau; a
- chreu diwylliant o berfformiad uchel sy’n canolbwyntio ar wybodaeth a defnyddio data i gynyddu effaith gwariant a dewisiadau o ran darparu gwasanaethau i’r eithaf.

## Cynnal deialog ddwyffordd a chyfleu sut y bydd newid yn ‘edrych’ ac yn ‘teimlo’

3.10 Un peth yw pennu gweledigaeth. Er mwyn gwneud hon yn realiti mae gofyn i awdurdodau lleol alluogi newid diwylliannol o fewn eu cymunedau, lle maent yn rhoi’r gorau i’w hystyried yn bwynt cyswllt cyntaf wrth geisio cymorth ac yn datblygu dealltwriaeth gyffredin am rôl yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu bod angen i awdurdodau lleol fynd ati mewn ffordd eglur i fynegi neges gref ynglŷn â’r hyn y gallant ac y byddant yn ei wneud yn y dyfodol ond hefyd sut y byddant yn cynorthwyo ac yn annog cymunedau i wneud mwy drostynt hwy eu hunain. Wrth ysgogi’r newid hwn, bydd angen i awdurdodau lleol ofyn rhai cwestiynau sylfaenol, er enghraifft:

- Beth y mae angen i ni ei wneud yn wahanol i ddatblygu a gwella’r cydnerthedd ym mhob un o’n cymunedau?
- Pa gymorth a chynhorthwy y mae angen i ni eu darparu a’u cynnal i sicrhau bod y gallu a’r capasiti ar gyfer cydnerthedd ym mhob un o’n cymunedau’n cael eu cadw?
- Sut allwn ni gynnal cydnerthedd cymunedau y tu hwnt i’r sector gwirfoddol?
- Pa ddull partneriaeth a chymorth y mae eu hangen i alluogi cydnerthedd cymunedau go iawn?

3.11 Fel man cychwyn, bydd angen i awdurdodau lleol gael sgwrs onest gyda'r cyhoedd am realiti darparu gwasanaethau yn y dyfodol a rôl bosibl y gymuned leol yn y dyfodol. O fewn y sgwrs hon, bydd angen i awdurdodau lleol ymgysylltu â chymunedau i bennu beth allent ei wneud o bosibl heb help, a sut y gallant gydweithio'n well gyda phobl leol, grwpiau lleol ac asedau cymunedol lleol.

3.12 Mae mapio asedau'n hanfodol i amlygu'r hyn sydd eisoes yn digwydd a'r hyn y mae eraill yn ei wneud, ar gyfer yr awdurdod lleol (aelodau etholedig yn eu rôl fel hyrwyddwyr cymunedau a staff yr awdurdod lleol) a phobl leol. Yn yr un modd, bydd angen i awdurdodau lleol hyrwyddo cyfleoedd i ymgeisio am gyllid, yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol ond hefyd gan fudiadau eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, a nodi sut y byddant yn cefnogi'r gweithgarwch hwn.

3.13 Un enghraifft a amlygwyd yn yr Alban o ymwneud dwys gan gymunedau â dylunio a chynllunio dulliau newydd yw'r defnydd o Siaréts Cymunedol. Mae'r model Siarét, a gefnogir â chyllid gan Lywodraeth yr Alban[23], yn dod â rhanddeiliaid a phenderfynwyr ynghyd i gydweithio gydag arbenigwyr er mwyn cyd-ddatblygu datrysiadau i ymdrin â materion problemus yn amgylchedd ffisegol ardal. Mae enghreifftiau o Siaréts llwyddiannus diweddar yn cynnwys Crieff a Gorllewin Glenrothes. Gan hynny, mae gan Siaréts y pŵer i ysgogi trawsnewid; ond heb baratoi'n ofalus gallant gael effaith groes, gan greu diffyg ymddiriedaeth mewn cymunedau. Er y bu'n cael ei gymhwyso'n draddodiadol i waith adfywio a chynllunio, mae'r dull Siarét yn cael ei ddefnyddio mewn ymdrechion polisi a chynllunio sefydliadol a newid hefyd.

23 Charettes and Community Place Plans, Development Trust Association Scotland

## Adfywhau rôl aelodau'r cyngor fel hyrwyddwyr cymunedol

3.14 Gall aelodau etholedig, fel arweinwyr cymunedol, fod â rôl hollbwysig o ran ail-lunio'r berthynas yn y dyfodol rhwng yr awdurdod lleol a chymunedau lleol. Maent yn aml yn arwain partneriaethau lleol, yn eistedd ar fyrddau a phwyllgorau rheoli grwpiau gwirfoddol, yn cynrychioli eu cymunedau gyda sefydliadau eraill, megis yr Heddlu neu'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac yn gwneud gwaith rheolaidd i hyrwyddo gwasanaethau lleol yn y gymuned.

3.15 Wrth edrych tua'r dyfodol, yn awr bydd rhaid i aelodau etholedig gyflawni rôl arweinyddiaeth gymunedol wahanol, un sy'n canolbwyntio ar annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cymdogaethau ac ysbrydoli pobl i wneud mwy i helpu yn eu cymuned leol. Mae rôl aelodau etholedig o ran datblygu cymunedau cryfach a mwy cydnerth yn un na ellir ei thanamcangyfrif. Bydd ganddynt rolau allweddol o ran y canlynol:

- rheoli disgwyliadau cymunedau, trwy nodi pam fod pethau'n newid ac egluro pam y bydd pethau'n wahanol yn y dyfodol;
- adnabod a chydweithio gyda gweithredwyr ac arweinwyr cymunedol i sicrhau eu bod yn cael eu hannog, eu cefnogi a'u cynorthwyo i fod â rôl fwy blaenllaw yn y dyfodol;
- galluogi llif gwybodaeth a newyddion yn y ddau gyfeiriad rhwng cymunedau lleol a'r awdurdod lleol, i adnabod y materion ar lawr gwlad a darparu'r wybodaeth y mae ar gymunedau lleol ei hangen i sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan; a
- gweithredu fel y sianel rhwng grwpiau cymunedol lleol a'r awdurdod lleol i helpu i ddatblygu datrysiadau cymunedol lleol sy'n cryfhau cydnerthedd ac yn diwallu angen lleol.

3.16 Fe wnaeth nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a gyfwelwyd gennym ni amlygu rôl bwysig aelodau etholedig o ran datblygu cydnerthedd cymunedau ac mae rôl adnewyddedig yn ganolog i gryfhau hunanddibyniaeth a chydnerthedd cymunedau. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, pwysleisiodd swyddogion fod aelodau'n aml yn 'edrych ar fywyd o'r gwaelod i fyny' ac yn dod â dealltwriaeth ddofn am faterion cymunedol a'r rôl y gall y Cyngor ei chyflawni i helpu cymunedau i ffynnu.

3.17 Yn Oldham, mae’r awdurdod lleol wedi mynd â’r ymagwedd hon gam ymhellach gan gyflwyno Rhaglen Arweinwyr Lleol yn 2011. Mae hon wedi bod yn allweddol bwysig i arfogi aelodau etholedig â’r sgiliau, yr wybodaeth, y cymwyseddau a’r agweddau sy’n angenrheidiol i ymgysylltu â chymunedau a llywio perthynas newydd â hwy. Roedd y cwrs yn cynnwys cymysgedd o drafodaethau dan arweiniad aelodau etholedig, seminarau yn cynnig offer a modelau defnyddiol, hwyluswyr a siaradwyr arbenigol, ac ystod o fformatau ar gyfer trafodaethau a gweithgareddau. Roedd y chwe modiwl yn rhoi sylw i’r canlynol:



- y rôl arweinyddiaeth leol mewn cymunedau;
- sgiliau arwain personol a dealltwriaeth bersonol;
- gweithio y tu mewn i’r sefydliad a’r wleidyddiaeth;
- golwg fanylach ar arweinyddiaeth gymunedol yn Oldham;
- materion a heriau; a
- chymdogaethau, partneriaethau a chyfathrebu allanol.

## Ailbennu ffocws gwaith staff y cyngor

3.18 Fel gyda’r rôl adnewyddedig ar gyfer aelodau etholedig, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau hefyd bod eu gweithlu’n meddu ar y sgiliau i gyflawni ffordd newydd o weithio. Mae staff awdurdodau lleol wedi’u hyfforddi i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ac maent yn brofiadol o ran gwneud hynny, ond bydd y newid i waith datblygu cymunedol a chydnerthedd cymunedau yn golygu ffordd dra gwahanol o feddwl ac o wneud i rai.

3.19 Ar hyn o bryd, mae’r model i lawer o wasanaethau awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddiwallu angen, gydag ymatebion yn canolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu i fynd i’r afael â materion acíwt byrdymor. Ond gyda llai o bwyslais ar ddarparu’n uniongyrchol a mwy o ffocws ar ddylanwadu ar eraill i wneud mwy, bydd angen i weithiwr awdurdod lleol y dyfodol allu meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda rhwydweithiau a grwpiau mewn cymunedau.

3.20 I wneud hyn yn dda bydd angen i staff fod yn gyfathrebwyr da sy’n gallu annog a chymell pobl, gan hwyluso newid ac annog cymunedau ac unigolion i gamu i fyny a gwneud mwy. Yn hollbwysig, bydd angen i staff hefyd fod yn ddatryswyr problemau effeithiol ac asiantau gweithredol dros newid, gan fod â llai o ddiddordeb mewn proses a chael eu cymell yn fwy gan yr amcan i gyflawni datrysiadau ar lawr gwlad.

3.21 Felly bydd angen i awdurdodau lleol ddatblygu eu gweithlu i allu ymateb i’r set newydd hon o heriau. Bydd hyn yn golygu ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y rhai ar y rheng flaen ond hefyd ar gyfer rheolwyr. Bydd angen cymorth a hyfforddiant i helpu i feithrin diwylliant ac ethos newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, a’r rheiny’n canolbwyntio ar atal yn hytrach nag ymyrryd.

## Cydnabod y bydd ail-lunio perthnasoedd cymunedol yn galw am ddatrysiadau gwahanol mewn lleoedd gwahanol

3.22 Nid yw cymunedau eu hunain yn unffurf. Bydd ganddynt gapasiti, sgiliau ac asedau gwahanol a bydd gan bob un fan cychwyn gwahanol. Mae’n amlwg bod cymunedau yng Nghymru sy’n dal i ddod i delerau â’u gorffennol ôl-ddiwydiannol, lle mae lefelau tlodi’n dal i fod yn ystyfnig o uchel, a lle mae’r heriau economaidd-gymdeithasol yn helaeth. Felly bydd yr ymateb i feithrin cydnerthedd cymunedau yn yr ardaloedd hyn yn dra gwahanol i ardaloedd â lefelau uchel o olud a hanes gweithredol o wneud llawer o pethau drostynt hwy eu hunain heb ryw lawer o ymyrraeth na chymorth gan awdurdodau lleol.

3.23 Beth bynnag, mae’n bwysig bod awdurdodau lleol yn ailgalibro’u perthynas â’u cymunedau ac yn dod o hyd i ddatrysiadau sy’n benodol i anghenion amrywiol Cymru. Er mwyn llwyddo i gyflawni’r newid pwyslais hwn – o ganolbwyntio ar angen a darparu gwasanaethau i ganolbwyntio ar grynhoi’r egnïoedd a chryfderau mewn cymunedau – bydd angen i awdurdodau lleol greu perthynas newydd â dinasyddion, gan helpu i feithrin capasiti a gwella potensial cymuned i wneud mwy. Er enghraifft, trwy weithio gydag:

- **unigolion**, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i feithrin capasiti i wneud pethau y mae awdurdodau lleol wedi bod yn eu gwneud yn draddodiadol;
- **grwpiau**, gan gynnwys grwpiau ffydd a chymunedol, sy’n cynnig cyfoeth o brofiad o helpu i roi cymorth i bobl ac sydd â chysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy’n llwyddiannus ar lawr gwlad;
- **sefydliadau**, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol a sefydliadau angori, sy’n weithgar o ran cefnogi buddiannau lleol ond y mae angen eu hannog yn awr i wneud mwy; a
- **rhwydweithiau**, gan gynnwys cymdeithasau megis cynghorau gwirfoddol sirol a phartneriaethau lleol sydd mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar eraill i wneud yr hyn y mae ei angen.

3.24 Yn ôl yr hyn a amlygir gan ymchwil, er mwyn i gymunedau fod â'r capasiti i weithredu, mae angen tri pheth fel arfer: y cymhelliant a'r ymrwymiad i weithredu; yr adnoddau y mae eu hangen i gefnogi camau gweithredu; a'r sgiliau, yr hyder a'r ddealltwriaeth i weithredu[24]. Y man cychwyn yn aml i awdurdodau lleol yw deall capasiti cyfredol mewn cymuned, gan ganolbwyntio ar bethau fel anghenion a materion lleol a phriod gryfderau a gwendidau cymuned. Yr allwedd i hyn yw adnabod y cyfranwyr a'r arweinwyr cymunedol a sefydlu fforymau, systemau a strwythurau sy'n rhoi anogaeth i gyfranogi, ymgysylltu a chynnwys.

3.25 Mae gan Fforwm Adfywio Trefol (SURF) yr Alban hanes o amlygu enghreifftiau cadarnhaol o waith adfywio dan arweiniad y gymuned ac fe ddyfarnodd wobr y lle sydd wedi gwella fwyaf i Campbelltown yn Argyll and Bute yn 2020. Mewn ymateb i her economaidd-gymdeithasol, fe gychwynnodd yr awdurdod lleol raglen eang o weithgareddau yn Campelltown a sicrhaodd gyfranogiad sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector cymunedol a'r trydydd sector[25].

3.26 Fe wnaeth gweledigaeth gyffredin yn seiliedig ar ymddiriedaeth a dyfalbarhad helpu i drosglwyddo perchnogaeth o'r awdurdod lleol i mewn i'r gymuned sydd bellach wedi'i grymuso i lunio a chyflawni prosiectau sy'n ymateb i amgylchiadau lleol i'r graddau bod Campbelltown yn ganol tref ffyniannus unwaith eto, ac yn lle mwyfwy deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo. Yn bwysig, rhoddir llai o ddibyniaeth ar yr awdurdod lleol gyda'r gymuned yn gwneud llawer mwy drosti hi ei hun.

3.27 Mae'r gwaith yn Argyll and Bute wedi cael ei helpu'n fawr hefyd gan y fframwaith polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban dan ymbarél Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015 – **Arddangosyn 7**.

24 Building Community Capacity – Resources for Community Learning and Development Practice: A Guide, Llywodraeth yr Alban, 2007.

25 Cyngor Argyll and Bute, Campbeltown Regeneration.

## Arddangosyn 7: Grymuso Cymunedau yn yr Alban

Cyflwynwyd Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015 i helpu i rymuso cyrff cymunedol trwy berchnogaeth neu reolaeth ar dir ac adeiladau, a thrwy gryfhau eu lleisiau mewn penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus. I roi cymorth i roi'r Ddeddf ar waith, mae Llywodraeth yr Alban wedi ceisio grymuso cymunedau i wneud mwy drostynt hwy eu hunain trwy ddarparu, er enghraifft:

- cyllid ar gyfer adfywio dan arweiniad cymunedau trwy'r Gronfa Grymuso Cymunedau;
- darparu cyllid ar gyfer cyllidebu cyfranogol trwy Gronfa Dewisiadau Cymunedol sy'n werth £1.5 miliwn, gan roi mwy o bŵer i bobl wneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant yn eu hardaloedd lleol; a hefyd
- ei gwneud yn haws i gymunedau ysgwyddo cyfrifoldeb am dir ac adeiladau mewn perchnogaeth gyhoeddus trwy drosglwyddo asedau ac estyn yr hawl gymunedol i brynu i'r Alban i gyd;
- cynorthwyo awdurdodau lleol cymunedol i gynrychioli barn ac anghenion cymunedau gyda chyrff cyhoeddus; a
- rhoi'r gallu i gymunedau ofyn am gael cyfranogi mewn penderfyniadau a phrosesau sydd wedi'u bwriadu i wella deilliannau trwy geisiadau cyfranogi.

Gyda'i gilydd, mae'n amlwg bod polisi cenedlaethol yn yr Alban wedi datblygu i annog a chynorthwyo cymunedau i berchnogi asedau ac i gymunedau eu hunain fod â mwy o lais wrth benderfynu sut y dylai gwasanaethau gael eu darparu ar eu gyfer a sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus gydweithio gyda hwy. Yn awr mae gan gymunedau'r Alban hawliau cyfreithiol i gyfranogi yn y broses o ddatblygu polisi a phrynu asedau gan gyrff cyhoeddus. Gallant lunio gwasanaethau ar lawr gwlad a chwarae mwy o ran wrth benderfynu at ba ddibenion y caiff adnoddau eu neilltuo.

## Sicrhau bod cyfoeth yn aros yn lleol ac yn gweithio i’r gymuned gyfan

3.28 Mae creu cyfoeth cymunedol yn ddull sy’n canolbwyntio ar bobl o fynd ar drywydd datblygu economaidd yn lleol, sy’n ailgyfeirio cyfoeth yn ôl i mewn i’r economi leol, ac yn rhoi rheolaeth a manteision yn nwylo pobl leol. Mae’n fodel arbennig o ddefnyddiol i ddarparu gwasanaethau mewn cyfnod o gyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus, cyni ac ansicrwydd economaidd cynyddol am ei fod yn ceisio atal, neu o leiaf gyfyngu ar, lif arian allan o’r cymunedau hynny y mae arnynt fwyaf angen buddsoddiad ac ysgogiad ariannol, trwy ail-lunio’r economi leol a defnyddio asedau sefydliad mewn ffyrdd tra gwahanol.

3.29 I wneud hyn, mae creu cyfoeth cymunedol yn defnyddio grym economaidd sefydliadau mawr, sydd â’u gwreiddiau yn yr ardal leol, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel ‘Sefydliadau Angori’ – **Arddangosyn 8**. Gall y ffordd y mae’r sefydliadau hyn yn gwario’u harian, yn cyflogi pobl ac yn defnyddio’u tir, eu heiddo a’u hasedau ariannol wneud gwahaniaeth enfawr i ardal leol. Ni ellir tanamcangyfrif rôl ‘Sefydliadau Angori’, a gallant fod â rôl ddiffiniol o ran creu ac atgyfnerthu cysylltiadau economaidd lleol.

**Arddangosyn 8: rôl a gwerth Sefydliadau Angori**

Defnyddir y term ‘**Sefydliadau angori**’ i gyfeirio at sefydliadau sydd:



Â phresenoldeb pwysig mewn lle, fel arfer trwy gyfuniad o fod yn gyflogwyr ar raddfa fawr, y prynwyr nwyddau a gwasanaethau mwyaf yn yr ardal leol, yn rheoli ardaloedd mawr o dir a/neu fod ag asedau cymharol sefydlog.

Â chysylltiad â lle arbennig yn rhinwedd eu cenhadaeth, hanes, asedau ffisegol a pherthnasoedd lleol. Mae enghreifftiau’n cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau’r GIG, prifysgolion, undebau llafur, busnesau lleol mawr, gweithgareddau cyfunol y sector cymunedol a gwirfoddol a chymdeithasau tai.



Ffynhonnell: Community business and anchor institutions, CLES, Chwefror 2019

3.30 Mae'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu dulliau o greu cyfoeth cymunedol. Trwy eu gwaith gyda chyrff y sector cyhoeddus, mae CLES wedi adnabod pum egwyddor allweddol sy'n allweddol bwysig i greu cyfoeth cymunedol yn llwyddiannus, sef:

- perchnogaeth luosog ar yr economi;
- gwneud i rym ariannol weithio ar gyfer lleoedd lleol;
- cyflogaeth deg a marchnadoedd llafur cyfiawn;
- caffael nwyddau a gwasanaethau mewn modd blaengar; a
- defnydd cymdeithasol-gynhyrchiol o dir ac eiddo.

3.31 Mae Cyngor Dinas Preston wedi bod yn bleidwyr hirdymor dros Greu Cyfoeth Cymunedol ac maent yn enghraifft gadarnhaol o sefydliad sy'n defnyddio dull y CLES, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwerth ar gyfer cymunedau yn y ddinas yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol trwy eu dewisiadau polisi a'u grym gwario. Mae dull Cyngor y Ddinas, y cyfeirir yn aml ato fel 'Model Preston', wedi'i ganoli ar drechu anghydraddoldeb trwy gydweithio a datblygu economïau a reolir yn lleol, sy'n rhoi cymunedau yn gyntaf[26]. Mae enghreifftiau ymarferol o sut y mae'r awdurdod lleol wedi ceisio gwireddu'r weledigaeth hon ar lawr gwlad yn cynnwys:

- defnyddio'r broses o gaffael gwasanaethau gan yr awdurdod lleol fel modd i fuddsoddi yn yr economi lleol ac erfyn ar bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus lleol i wneud yr un peth. Mae arferion caffael newydd yn rhoi cyfleoedd i BBChau, cwmnïau cydweithredol gweithwyr, mentrau cymdeithasol a busnesau lleol gynnig am gontractau.
- annog cyflenwyr i wella'r agweddau ar eu contractau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol trwy gynnwys cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth mewn cytundebau.
- bod yn fabwysiadwr cynnar y 'cyflog byw gwirioneddol' yn lleol a defnyddio proffil a chymell tawel gan yr awdurdod lleol i ddylanwadu ar gyflogwyr eraill i wneud yr un peth.
- cefnogi a hybu perchnogaeth fwy amrywiol yn yr economi leol trwy fuddsoddi'n uniongyrchol mewn asedau allweddol yng nghanol y ddinas, newid yn ôl i ddarparu gwasanaethau'n fewnol a hybu cwmnïau cydweithredol gweithwyr a busnesau cymunedol;

26 Community Wealth Building 2.0 Leading Resilience and Recovery in Preston

- galluogi mwy o gyfoeth ariannol i gael ei gadw’n lleol trwy gyfrannu at sefydlu banc datblygu rhanbarthol – y North West Mutual – gyda Chyngor Dinas Lerpwl a’r Wirral. Mae gan y banc newydd orchwyl i wella mynediad at wasanaethau ariannol ar gyfer pobl a busnesau lleol, ac mae ganddo nod penodol i gadw elw bancio yn y Gogledd Orllewin ac ailgylchu arbedion rhanbarthol yn fenthyciadau a morgeisi ar gyfer busnesau.
- annog Cronfa Bensiwn Sir Gaerhirfryn i fuddsoddi yn Preston.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Offeryn gwerthuso cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Ymagwedd

Ein hymagwedd oedd deall diffiniadau a dulliau awdurdodau lleol o feithrin cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth gymunedol a sut y mae awdurdodau lleol tref a chymuned yn cael eu cynorthwyo i hybu cydnerthedd.

Mae’r adroddiad hwn yn eistedd ochr yn ochr ag adolygiadau eraill sy’n archwilio sut y mae awdurdodau lleol yn mynd i’r afael â thlodi, ac adolygiad arall sy’n ystyried rôl mentrau cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ar y cyd, maent yn archwilio sut y mae awdurdodau lleol yn grymuso dinasyddion i fynd i’r afael â materion a’u hatal rhag datblygu’n argyfwng lle mae angen ymyriad statudol.

Fe wnaethom archwilio pob un o’r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli’r dull cyflawni i fod yn ystyriol o’r pwysau sydd ar swyddogion awdurdodau lleol yn ystod y pandemig a’r argyfwng costau byw. Fe wnaethom sicrhau bod cwmpas y gwaith yn ddigon i gael barn am y sector cyfan ond heb dynnu’n sylweddol oddi ar waith swyddogion. Roedd ein hymagwedd yn hyblyg i allu ffitio o amgylch swyddogion wrth gytuno ar ein gwaith maes a’i gyflawni.

## Dulliau

Fe gwblhaom ni ein hadolygiad rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022 ac fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau wrth gyflawni ein hadolygiad:

- **adolygu dogfennau** – fe wnaethom adolygu ymchwil gyhoeddedig a dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill. Fe wnaethom hefyd adolygu ystod o gyhoeddiadau gan grwpiau cynrychiolaidd, sefydliadau ymchwil a chyrff cyhoeddus yng ngwledydd eraill y DU.
- **cyfweliadau a grwpiau ffocws** – fe gynhaliom ni ystod o gyfweliadau a grwpiau ffocws gwahanol:
  - cyfweliadau â swyddogion – fe wnaethom gyfweld â swyddogion a enwebwyd gan bob un o brif awdurdodau lleol Cymru, ar y cyfan y rhai â chyfrifoldeb am arwain ar gydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth gymunedol. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022.

  - grwpiau ffocws gyda swyddogion – yn unol â'n dull hyblyg, roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo'i bod yn fwy priodol i ni siarad gydag ystod o swyddogion mewn grwpiau ffocws i ddarparu gwybodaeth fwy cyflawn a lleihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
  - cyfweliadau cenedlaethol – fe wnaethom gyfweld â chynrychiolwyr cyrff cenedlaethol, melinau trafod ar lefel y DU, sefydliadau ymchwil a chyrff cynrychiolaidd. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022.
- **arolygon** – fe gynhaliom ni ddau arolwg i oleuo ein gwaith:
  - arolwg cenedlaethol o gynghorau tref a chymuned – fe wnaethom wahodd pob un o'r 732 o gynghorau tref neu gymuned yng Nghymru i rannu eu barn ynglŷn â chydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth gymunedol trwy arolwg ar-lein. Cawsom gyfanswm o 336 o ymatebion, gan gynnwys 195 o ymatebion a gwblhawyd yn llawn a 141 o ymatebion a gwblhawyd yn rhannol. Mae'r ymatebion a gwblhawyd yn cynrychioli un ym mhob pedwar cyngor tref neu gymuned yng Nghymru fwy neu lai, ac fe gawsom ymatebion gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol.
  - arolwg o uwch swyddogion awdurdodau lleol. Fe wnaethom wahodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol i gyfranogi ac fe gawsom 21 o ymatebion. Er ei fod wedi cael ei wahodd i gymryd rhan, fe ddewisodd Cyngor Sir Penfro beidio ag ymateb.
- **dadansoddi data** – fe wnaethom gasglu a dadansoddi ystod o setiau data a oedd ar gael yn gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a sefydliadau'r trydydd sector.

# 2 Offeryn gwerthuso cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

| Cam Gweithredu | Cadarnhaol | Negyddol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Deall yr her a disgrifio eich rôl** | | | |
| Rydym wedi diffinio'n glir a chytuno beth mae cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau yn ei olygu i ni. | | | |
| Mae ein gweledigaeth yn ei gwneud yn glir beth y mae angen i ni ei wneud a beth y mae eraill yn y sefyllfa orau i'w wneud. | | | |
| Rydym wedi adnabod fesul gwasanaeth y gweithgareddau:<br>• y mae'n rhaid i'r awdurdod barhau i'w darparu;<br>• y rhai a all gael eu darparu mewn partneriaeth gydag eraill; a hefyd<br>• y rhai y gall y gymuned arwain arnynt. | | | |
| Rydym wedi cyfleu ein diffiniadau'n eang i sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn deall yr hyn y mae arnom eisiau ei gyflawni trwy ein gwaith ar gydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Mae ein partneriaid allweddol wedi nodi sut y byddant yn cydweithio gyda ni i gryfhau cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym wedi cwblhau ymarfer mapio asedau seiliedig ar le i asesu cydnerthedd cymunedau a chapasiti ar gyfer mwy o hunanddibyniaeth. | | | |
| Rydym yn gwybod nifer y sefydliadau a'r math o sefydliadau sy'n gweithio'n lleol a all ein helpu i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym yn gwybod ble y mae bylchau y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy. | | | |

| Cam Gweithredu | Cadarnhaol | Negyddol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cytuno ar y camau gweithredu sy’n ofynnol i helpu i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau yn ein hardal. | | | |
| Mae gennym amcanion a chamau gweithredu CAMPUS o ran sut y byddwn yn gwella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym yn glir ynglŷn â manteision a risgiau ein gwaith ar gydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau ar gyfer dinasyddion, cymunedau lleol a’r awdurdod lleol. | | | |

## Adnabod eich cymunedau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn gwybod pwy yw ein gweithredwyr ac arweinwyr cymunedol allweddol. | | | |
| Mae gennym berthnasoedd gweithio da ac rydym yn gweithio’n effeithiol gyda’n gweithredwyr ac arweinwyr cymunedol allweddol. | | | |
| Rydym yn rhoi help, cefnogaeth a hyfforddiant i sicrhau bod ein gweithredwyr ac arweinwyr cymunedol allweddol mor effeithiol ag y gallant fod. | | | |
| Rydym yn mynd ati’n effeithiol i annog gweithredwyr ac arweinwyr cymunedol allweddol i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |

## Sgiliau a gwybodaeth i feithrin cydnerthedd cymunedau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn dda am annog pobl i helpu a gwneud mwy yn eu cymuned. | | | |
| Mae gennym y staff cywir yn y lle cywir i helpu i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym wedi diwygio swydd-ddisgrifiadau a manylebau’r person i gryfhau eu ffocws ar gynnwys, i helpu i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |

| Cam Gweithredu | Cadarnhaol | Negyddol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rydym yn rhoi’r cyfle i staff gymryd risgiau a reolir yn dda ac archwilio arferion arloesol gyda chymunedau. | | | |
| Mae ein staff yn dda am ddylanwadu ar bobl i wneud mwy drostynt hwy eu hunain lle gallant. | | | |
| Mae aelodau etholedig yn cefnogi gwaith yr awdurdod ar gryfhau cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym wedi sefydlu’r cymorth cywir i helpu Aelodau Etholedig i gryfhau cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau yn eu wardiau. | | | |
| Mae gennym ddiwylliant a meddylfryd hyderus yn yr awdurdod lleol i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym yn dda am annog cymunedau i ddod o hyd i’w datrysiadau eu hunain i broblemau a pheidio â dibynnu arnom ni. | | | |

## Gwneud gwahaniaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi adolygu ffyrdd o weithio ar draws y Cyngor ac rydym yn newid gwasanaethau i helpu i wella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym wedi adnabod sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl. | | | |
| Rydym yn cyfleu i ddinasyddion sut y mae ein gwasanaethau’n newid. | | | |
| Rydym wedi nodi’r wybodaeth y mae ei hangen i werthuso sut y mae ein gwaith yn gwella cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau. | | | |
| Rydym yn defnyddio ein hadnoddau, ein harian a’n hasedau i greu a chadw cyfoeth yn ein cymunedau lleol. | | | |

| Cam Gweithredu | Cadarnhaol | Negyddol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio ein prosesau caffael gwasanaethau fel modd i fuddsoddi yn yr economi leol. | | | |
| Rydym yn gweithio gyda’n sefydliadau angori lleol i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth i greu cyfoeth cymunedol trwy eu trefniadau darparu gwasanaethau, eu defnydd o adnoddau, eu prosesau caffael a’u hasedau. | | | |
| Rydym yn annog cyflenwyr i wella’r agweddau ar eu contractau sy’n ymwneud â gwerth cymdeithasol trwy gynnwys cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth mewn cytundebau. | | | |
| Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein gwaith ym maes cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy’n cynnwys:<br>• y galw am wasanaethau’r awdurdod lleol;<br>• darpariaeth amgen o fewn cymunedau a chan bartneriaid; ac<br>• effaith ein gwaith ar lesiant pobl. | | | |
| Mae ein prosesau craffu a gwerthuso’n rhoi sicrwydd i ni bod ein gwaith yn cyflawni’r deilliannau disgwyliedig. | | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru